



Cardiff University

Côd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru

Ebrill 2019

Os bydd angen i chi neu unrhyw un arall gael y ddogfen hon mewn fformat amgen, ffoniwch 02920 870230, neu ebostiwch morganca5@caerdydd.ac.uk.

Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu

Prifysgol Caerdydd

Catrin Morgan

Ffôn: 02920 870230 Ebst: MorganCA5@caerdydd.ac.uk

Côd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn mynnu bod y Brifysgol a phawb sy'n ymwneud â'i rheoli yn cymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i'w haelodau¹, ei myfyrwyr a'i gweithwyr, ac i siaradwyr sy'n ymweld. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd i gyhoeddi Côd Ymarfer i nodi'r gweithdrefnau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan y rhai sy'n trefnu neu'n mynychu cyfarfodydd neu weithgareddau eraill. Ni fydd y Brifysgol, felly, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn gwrthod mynediad i'w safle i unigolion neu gyfrff ar sail eu credoau, eu barn neu eu polisïau.

2. Diffiniadau

2.1 Rhyddid i Lefaru:

Y ddyletswydd ar brifysgolion o dan Ddeddf Addysg 1986 yw sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol, na wrthodir defnydd o unrhyw safle'r sefydliad i unrhyw unigolyn neu gorff o unigolion ar unrhyw sail sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

2.1.1 Credoau neu safbwyntiau'r unigolyn hwnnw neu unrhyw aelod o'r corff hwnnw; neu

2.1.2 Polisi neu amcanion y corff hwnnw.

2.2 Mae Rhyddid Mynegiant - Erthygl 10 y Ddeddf Hawliau Dynol yn datgan:

S1 "Mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Mae'r hawl hon yn cynnwys y rhyddid i arddel barn ac i gael a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus a heb ystyried ffiniau.

S2 Gall y bydd gweithredu'r rhyddid hwn, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldeb ymhlyg ynddo, yn ddibynnol ar y math o ffurfioldebau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau a ragnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er diogelwch cenedlaethol, cyfanrwydd tiriogaethol neu ddiogelwch cyhoeddus, er mwyn gwarchod rhag anhrefn neu droseddu, gwarchod iechyd neu foesau, gwarchod enw da neu

¹Caiff y canlynol eu diffinio fel Aelodau o Brifysgol Caerdydd:

- (1) y Canghellor, y Dirprwy Ganghellorion, y Llywydd a'r Is-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor a Swyddogion eraill;
- (2) aelodau'r Llys, y Cyngor a'r Senedd;
- (3) gweithwyr Prifysgol Caerdydd;
- (4) myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'i sefydliadau a'i rhagflaenodd;
- (5) unigolion eraill fel y'u diffinnir gan benderfyniad y Cyngor.

hawliau pobl eraill, gwarchod rhag datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol, neu er mwyn cadw awdurdod ac amhleidgarwch y farnwriaeth."

- 2.3 Mae Adran 202 Rhyddid Academaidd Deddf Diwygio Addysg 1998 yn darparu gofyniad i sefydliadau cyn-1992:

"Sicrhau bod gan staff academaidd ryddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb safonol, ac i gyflwyno syniadau newydd a barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o gollu eu swyddi neu'r breintiau a all fod ganddynt yn eu sefydliadau."

- 2.4 Mae statudau'r Brifysgol yn statud XV yn rhoi sylw pellach i ryddid academaidd fel egwyddor arweiniol:

"Dylid dehongli'r Statud hwn ac unrhyw Ordiniad neu Reoliad a wneir o dan y Statud hwn ym mhob achos i weithredu'r egwyddorion arweiniol canlynol, hynny yw-

(1) sicrhau bod gan staff academaidd ryddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb safonol, ac i gyflwyno syniadau newydd a barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o gollu eu swyddi neu'u breintiau;

(2) galluogi Prifysgol Caerdydd i ddarparu addysg, hyrwyddo dysgu ac ymgysylltu mewn ymchwil effeithlon a darbodus; a

(3) chymhwyso egwyddorion cyfiawnder a thegwch."

3. Egwyddorion

- 3.1 Mae egwyddorion rhyddid i lefaru, rhyddid mynegiant a rhyddid academaidd yn bwysig i brifysgolion oherwydd maent yn diffinio eu rôl fel un lle'r anogir dadl yn gadarnhaol, a lle gellir ystyried, archwilio a dadansoddi amrywiaeth o syniadau mewn rhaglenni academaidd ac ym mywyd ehangach y sefydliad. Ystyrir prifysgolion yn lleoedd lle gellir cyflwyno safbwyntiau gwahanol ac anodd, gwrando arnynt, a'u herio.
- 3.2 Mae'r rhyddid i lefaru o dan adran 43 Deddf Addysg (2) 1986 yn sylfaenol bwysig i brifysgolion gan ei fod yn gosod dyletswydd gyfreithiol gadarnhaol a rhagweithiol. Nid ymatal rhag cyfyngu ar y rhyddid i lefaru neu ei dorri'n unig yw'r rhwymedigaeth, ond yn hytrach gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau rhyddid i lefaru. Mae'r ddyletswydd wedi'i hanelu at ryddid i lefaru i bawb sy'n cymryd rhan ym mywyd prifysgol – yn aelodau, myfyrwyr, staff a

siaradwyr sy'n ymweld. Hefyd caiff staff academiaidd hawl ychwanegol i ryddid academiaidd fel y nodir ym mharagraffau 2.3 a 2.4 uchod.

- 3.3 Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, fod yr hawl i ryddid i lefaru a rhyddid mynegiant heb ei gyfyngu. Fel y nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol ym mharagraff 2.2 uchod, rhaid arfer egwyddorion rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant gan ystyried y gofynion cyfreithiol perthnasol eraill y mae'n rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â nhw. Mae hyn yn cynnwys cyfreithiau sy'n amddiffyn diogelwch gwladol a diogelwch y cyhoedd, i atal anhrefn neu droseddau ac i amddiffyn hawliau cyfreithiol eraill (e.e. mewn perthynas ag aflonyddu a gwahaniaethu).

4. Cyfyngiadau cyfreithlon ar ryddid i lefaru

- 4.1 Ni fydd y Brifysgol mewn unrhyw ffordd afresymol yn gwrthod caniatáu i ddigwyddiadau gael eu cynnal ar ei safle oni nodir darpariaeth gyfreithiol wrthwynebus yn rheswm dros wrthod digwyddiadau/cyfyngu arnynt. Mae crynodeb o'r ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr, a chaiff ei diweddarau fel y bo angen.
- 4.2 Ni fydd mynegi barn ddadleuol nad yw'n torri'r gyfraith yn sail resymol dros beidio â rhoi caniatâd i ddigwyddiad.
- 4.3 Mae seiliau rhesymol dros wrthod yn cynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu, i'r ffaith fod y digwyddiad yn debygol o:
- Ysgogi'r rhai sy'n ei fynychu i gyflawni gweithred droseddol;
 - Arwain at fynegi barn yn anghyfreithlon;
 - Cefnogi mudiad sydd â nodau ac amcanion anghyfreithlon neu sydd ar rhestr o fudiadau wedi'u gwahardd gan lywodraeth y DU (fel y'u nodwyd gan Weithgor *Prevent* neu Ddiogelwch y Brifysgol);
 - Arwain at dorri'r heddwch;
 - Hyrwyddo radicaleiddio ac eithafiaeth.

5. Gweithdrefnau ar gyfer trefnu digwyddiadau/siaradwyr (gwelerhefyd siart lif gweithdrefnau Atodiad 1a ac Atodiad 1b)

- 5.1 Rhaid llenwi ²Ffurflen Trefnu³ Digwyddiad a Siaradwr ar gyfer pob digwyddiad ar safle a reolir gan Brifysgol Caerdydd neu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd cyn cyflwyno'r cais i logi ystafell drwy'r asiantaeth briodol.

²Nid yw academyddion sy'n ymweld i roi darlithoedd/seminarau fel rhan o fodiwl a gynlluniwyd yn gyfystyr â digwyddiad o dan y polisi hwn

³Mae'r Ffurflen Trefnu Digwyddiad ar gael yn Atodiad 3

Rhaid i'r ffurflen (Rhan A a Rhan B) gael ei llenwi o leiaf 21 diwrnod cyn y digwyddiad ac mae'n galluogi cynnal asesiad risg o'r digwyddiad.

Digwyddiadau oddi ar y safle

5.2 Rhaid llenwi'r ffurflen trefnu siaradwr allanol ar gyfer pob digwyddiad mewn lleoliad nad yw ar safle'r Brifysgol os trefnir y digwyddiad gan fyfyrwr neu aelod o staff a lle bodlonir un neu ddau o'r meini prawf canlynol:

1. Y gynulleidfa darged ar gyfer y digwyddiad yw staff/myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn bennaf;
2. Mae'r hysbysebu ar gyfer y digwyddiad yn cario brand Prifysgol Caerdydd.

Rhaid i'r ffurflen (Rhan A a Rhan B) gael ei llenwi gan y prif unigolyn sy'n trefnu'r digwyddiad o leiaf 21 diwrnod cyn y digwyddiad ac mae'n galluogi cynnal asesiad risg o'r digwyddiad.

5.3 Nodir unrhyw bryderon mewn perthynas â digwyddiad neu unrhyw siaradwyr, codir/trafodir y rhain gyda'r adrannau/grwpiau cynghori perthnasol yn y lle cyntaf. Gall hyn gynnwys (fel y bo'n briodol):

- Gweithgor Strategaeth *Prevent*
- Diogelwch, Iechyd a Diogelwch
- Cynllunio Strategol a Llywodraethu
- Cyfathrebu

5.4 Os nodir risg yn y Ffurflen Trefnu Digwyddiad a Siaradwr, naill ai gan y sawl sy'n llenwi'r ffurflen, gan yr adran/grŵp cynghori perthnasol, neu gan y sawl sy'n derbyn y ffurflen, clustnodir y digwyddiad arfaethedig yn '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*'.

5.5 Diffinnir '*digwyddiad/cyfarfod penodedig*' fel:

5.5.1 unrhyw gyfarfod neu weithgaredd lle mae unrhyw ffactor fel enw da siaradwr neu'r pwnc dan sylw yn ei gwneud hi'n debygol y bydd siaradwr, wrth fynd i mewn i'r lleoliad neu ei adael, yn cael ei amharu yn y fath fodd ag sy'n peryglu ei ddiogelwch, neu lle y gallai siaradwr gael ei atal rhag cymryd rhan yn y cyfarfod neu'r weithgaredd; a/neu

5.5.2 unrhyw gyfarfod neu weithgaredd lle mae unrhyw ffactor fel enw da'r siaradwr neu'r pwnc yn ei gwneud hi'n debygol y bydd un o'r cyfyngiadau cyfreithiol ar ryddid i lefaru (fel y'i nodwyd uchod) yn berthnasol.

- 5.6 Mae'r diffiniad hwn yn gymwys i unrhyw gyfarfod neu weithgaredd a gynhelir ar safle'r Brifysgol ac i unrhyw gyfarfod neu weithgaredd na chynhelir ar safle'r Brifysgol sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn 5.2 uchod.
- 5.7 Yn y gweithdrefnau manwl sy'n dilyn, mae cyfeiriadau at " y Cyfarwyddwr" yn cyfeirio at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

6. Hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu am ddigwyddiadau/cyfarfodydd penodedig

- 6.1 Os bydd aelodau o'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr wedi nodi bod cyfarfod neu ddigwyddiad arfaethedig yn achosi risg o dan y Côd hwn, rhaid iddynt hysbysu'r Cyfarwyddwr ei fod yn '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*' posibl. Hefyd gall y Grŵp Strategaeth Prevent godi pryderon ynglŷn â digwyddiad neu gyfarfod yn uniongyrchol.
- 6.2 Mae gan y Cyfarwyddwr ddisgresiwn llwyr i benderfynu p'un a yw unrhyw gyfarfod neu weithgaredd yn '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*'.
- 6.3 Lle mae unrhyw amheuaeth ynghylch dosbarthiad cyfarfod neu weithgaredd, rhaid i'r sawl sy'n dymuno cynnal y cyfarfod neu'r gweithgaredd ymgynghori â'r Cyfarwyddwr a all geisio cyngor gan y Gweithgor *Prevent* a Dirprwy Is-gangellorion, swyddogion neu adrannau eraill perthnasol.
- 6.4 Os yw myfyriwr, neu unigolyn sy'n gweithredu ar ran mudiad myfyrwyr, yn gwneud cais i gynnal '*digwyddiad/cyfarfod penodedig*' i'r Cyfarwyddwr rhaid iddi hi/iddo ef, ar yr un pryd, ddarparu copi o'r cais i'r Prif Weithredwr a/neu Lywydd Undeb y Myfyrwyr.
- 6.5 Os yw aelod o staff yn dymuno gwahodd siaradwr o'r tu allan i Brifysgol Caerdydd i ddarlithio, neu i gynnal seminar neu i roi cyflwyniad arall, yn rhan o'r rhaglen addysgol gyffredinol, ac y byddai'r siaradwr neu'r pwnc o'i ddewis yn bodloni'r diffiniad o '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*', rhaid iddo'n gyntaf ymgynghori â'i Bennaeth Ysgol. Bydd y Pennaeth Ysgol yn hysbysu'r Cyfarwyddwr ac yn ymgynghori ag ef/hi.
- 6.7 Ni cheir hysbysebu na chynnal unrhyw '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*' hyd nes bod y Cyfarwyddwr wedi rhoi caniatâd.

7 Amseru'r hysbysiad

- 7.1 Bydd angen i holl ffurflenni trefnu digwyddiadau ac asesiadau risg siaradwyr gael eu cyflwyno o leiaf 21 diwrnod cyn y digwyddiad.
- 7.2 Os codir unrhyw faterion yn ymwneud â'r Côd Ymarfer hwn, neu os nodir bod y digwyddiad/cyfarfod yn '*ddigwyddiad/cyfarfod penodedig*', rhaid hysbysu'r Cyfarwyddwr hefyd yn ysgrifenedig o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad arfaethedig y digwyddiad/cyfarfod hwnnw.
- 7.3 Os yw digwyddiad wedi'i hysbysebu, caiff myfyrwyr neu staff barhau igyflwyno achos i'r Cyfarwyddwr os teimlant y gallai dorri Côd Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru.

8 Camau i'w cymryd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu

- 8.1 Pan gaiff y Cyfarwyddwr ei hysbysu am ddigwyddiad/cyfarfod penodedig arfaethedig, bydd ef neu hi yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r cyfarfod penodedig ac yn cymryd un o'r camau canlynol:
- 8.1.1 Dangos nad yw ef neu hi am gymryd unrhyw gamau o dan 8.1.2 neu 8.1.3 isod; neu
- 8.1.2 Nodi amodau penodol sy'n angenrheidiol i'w rhoi ar waith er mwyn cynnal y digwyddiad/cyfarfod penodedig er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n gyfreithiol â chyfrifoldebau statudol y Brifysgol; neu
- 8.1.3 Dangos na all y cyfarfod/digwyddiad penodedig fynd yn ei flaen gan nad yw ef/hi yn ystyried bod hynny'n bosibl, o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r Brifysgol, i'r cyfarfod gael ei gynnal o fewn y gyfraith neu ni ellir sicrhau diogelwch y mynychwyr.

9 Amodau a all fod yn ofynnol gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu

- 9.1 Os bydd y Cyfarwyddwr yn penderfynu bod y digwyddiad yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Brifysgol, gellir mynd rhagddo i'w gynnal. Fodd bynnag, efallai y bydd y Cyfarwyddwr yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r trefnwyr sefydlu mesurau diogelwch, fel diogelwch ychwanegol neu gadeirydd priodol a hyddysg sydd â'r pŵer i ymyrryd neu i derfynu'r digwyddiad os torrir y Côd.
- 9.2 Bydd gan y Cyfarwyddwr ddisgresiwn llwyr i osod y cyfryw amodau ag y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a bydd yn nodi unrhyw daliadau i dalu am unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig.
- 9.3 Efallai y bydd y Cyfarwyddwr yn ceisio cyngor gan y Gweithgor *Prevent* a Dirprwy-Is-Gangellorion, swyddogion neu adrannau eraill perthnasol ynghylch yr amodau perthnasol i'w gosod.
- 9.4 Trefnydd y digwyddiad fydd yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud â phorthorion, stiwardiaid, glanhau neu ddifrod sy'n deillio o'r cyfarfod penodedig. Mewn achosion priodol, caiff y Cyfarwyddwr ymgynghori â Llywydd Undeb y Myfyrwyr ynghylch y trefniadau ac yn arbennig ynghylch amodau a thaliadau.

- 9.5 Gallai mynediad i gyfarfodydd penodedig gael ei gyfyngu naill ai ar gais trefnydd y digwyddiad neu yn unol â chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr. Pan fydd angen rheoli mynediad, gallai hynny fod trwy docyn, trwy wahoddiad, trwy aelodaeth, trwy gerdyn adnabod y Brifysgol neu gerdyn adnabod arall, neu drwy unrhyw fodd a gytunwyd rhwng y Cyfarwyddwr a threfnydd y digwyddiad.
- 9.6 Efallai y bydd y Cyfarwyddwr yn penderfynu bod rhaid i un neu fwy o aelodau enwebedig Prifysgol Caerdydd fod yn bresennol mewn cyfarfod penodedig. Mewn achosion priodol, gellid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â Llywydd Undeb y Myfyrwyr.
- 9.7 Efallai y bydd y Cyfarwyddwr yn nodi bod rhaid penodi Cadeirydd i fynychu a rheoli'r digwyddiad/cyfarfod. Bydd y Cadeirydd a benodwyd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod ymddygiad yn y cyfarfod penodedig o fewn ffiniau ymddygiad derbynol cyffredin ac yn cydymffurfio â'r Côd hwn a Chodau Ymarfer eraill perthnasol Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys Polisi *Prevent* y Brifysgol.
- 9.8 Pan benodir Cadeirydd ar gyfer digwyddiad/cyfarfod, cyfrifoldeb y Cadeirydd yn ystod y digwyddiad/cyfarfod fydd penderfynu a all y digwyddiad/cyfarfod barhau neu a oes rhaid ei derfynu. Hefyd bydd y Cadeirydd yn cymryd cyngor gan unrhyw unigolion a enwebir gan y Cyfarwyddwr o dan baragraff 9.6 (uchod) os ydynt yn bresennol.
- 9.9 Mewn cyfarfodydd penodedig, y Cadeirydd enwebedig a'r ymgeisydd fydd yn gyfrifol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, am sicrhau bod siaradwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith.
- 9.10 Yng ngoleuni newid mewn amgylchiadau, neu ffactorau nad ydynt yn hysbys ar adeg y cais, caiff y Cyfarwyddwr ddiwygio'r amodau a osodwyd, neu ganslo'r digwyddiad/cyfarfod ar unrhyw adeg yn ystod y broses.

10 Sanctsiynau a chosbau

- 10.1 Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cynnal 'digwyddiad/cyfarfod penodedig' hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu. Mae methu gwneud hynny'n torri'r Côd hwn a gall y Brifysgol gychwyn mesuraudisgyblu, p'un a yw unrhyw aflonyddwch neu ymgais i amharu ar ryddid i lefaru yn digwydd yn y cyfarfod neu'r gweithgaredd ai peidio.

11. Ymddygiad

- 11.1 Mae'n ddyletswydd ar bob cyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd i ymatal rhag unrhyw ymddygiad neu gamau gweithredu sy'n amharu ar arfer y rhyddid i lefaru'n gyfreithlon.

- 11.2 Bydd yn drosedd ddisgyblu i unrhyw gyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd weithredu mewn ffordd aflonyddgar neu fygythiol mewn cyfarfod penodedig at ddiben atal siaradwr rhag cael ei glywed, neu atal y drafodaeth neu gyflawni unrhyw fusnes arall y cynhaliwyd y cyfarfod ar ei chyfer/gyfer. Bydd yn drosedd ddisgyblu i unrhyw gyflogai neu aelod o Brifysgol Caerdydd helpu neu annog unigolion eraill i weithredu yn y fath fodd.
- 11.3 Yn ogystal, os bydd unrhyw gamau o'r fath gan aelodau, cyflogeion neu unigolion eraill yn ymwneud â throeddau honedig a allai fod yn achosion o dorri'r gyfraith, bydd Prifysgol Caerdydd yn helpu'r heddlu mewn unrhyw achosion troseddol dilynol.
- 11.4 Disgwylir i gyflogeion neu aelodau Prifysgol Caerdydd sy'n mynychu cyfarfod penodedig gydymffurfio â dyfarniadau a cheisiadau Cadeirydd y cyfarfod penodedig neu unrhyw unigolyn a awdurdodwyd felly gan y Cadeirydd. Gallai ceisiadau o'r fath gynnwys ceisiadau i ymneilltuo o'r cyfarfod.

12. Protestiadau a gwrthdystiadau

- 12.1 Heb amharu ar yr hawl i brotestio'n heddychlon, ni chaiff cyflogeion nac aelodau Prifysgol Caerdydd rwystru'r llwybr i mewn neu allan o gyfarfod penodedig, ac ni chânt gynorthwyo nac annog unigolion eraill i achosirhwysr o'r fath.

13 Safle Undeb y Myfyrwyr

- 13.1 Yn unol ag adran 43(8) Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, ystyrir bod unrhyw gyfeiriad at safle Prifysgol Caerdydd yn cynnwys cyfeiriad at safle Undeb Myfyrwyr.

14 Cofrestr Risg o Siaradwyr Rhestr o Atgyfeiriadau o dan y Côt Rhyddid i Lefaru / Polisi *Prevent*


- 14.1 Bydd yr adran sy'n derbyn y cais i drefnu digwyddiad / sy'n trefnu'r digwyddiad (Adran Llogi Ystafelloedd, Undeb y Myfyrwyr, Swyddfa Gynadleddau, Swyddfa Ysgol) yn cadw cofnod o bob cais ac archebion).
- 14.2 Bydd cofrestr risg o bob siaradwr allanol sy'n cael eu hystyried o dan y weithdrefn ar gyfer 'digwyddiadau/cyfarfodydd penodedig' yn cael ei hanfon ymlaen at y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Llywodraethu gan nodi manylion yr archeb a lle nodwyd risg posibl, y camau atgyfeirio a gymerwyd a chanlyniad y penderfyniad. Mae copi o'r Templed Cofrestr Risg wedi'i gynnwys yn Atodiad 4.


15. Polisiâu eraill perthnasol

Polisi *Prevent* Prifysgol Caerdydd
Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Atodiad 1a - Siart Llif y Weithdrefn ar gyfer Digwyddiadau Penodedig

Prevent and Specified Event Decision Making Flow Chart





Nodwyd Swyddog Arweiniol ar gyfer y digwyddiad a llenwyd ffurflen cadw lle i ddigwyddiad – mae'r digwyddiad yn mynd

heb ei

Ni chymeradwywyd y digwyddiad. Rhoddir gwybod i'r sawl a wnaeth y cais am y penderfyniad a'r rhesymau a nodwyd dros wrthod y cais.

¹ Dylid ystyried y cais o dan y rhestr ganlynol o benawdau nad yw'n holl gynhwysfawr a hefyd ar y cyd â'r Côd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru

1. Ystyried Perthnasedd

- A yw'n cydweddu â'r rhaglen ddigwyddiadau bresennol
- A oes gwrthdaro â siaradwr/digwyddiad arall
- A yw'r pwnc eisoes wedi'i drafod yn ddiweddar
- Ydy'r ffocws yn berthnasol e.e. Addysg Uwch/Cymru

2. Ystyried y siaradwr a'r pwnc

- Ydy hyn yn codi materion sy'n peri pryder o dan y Côt Ymarfer ar Ryddid i Lefaru mewn perthynas ag erenghraifft *Prevent*, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ysgogi casineb, difenwi ac ati.
- Wedi'i nodi fel 'cyfarfod penodedig'² (gweler y Côt Ymarfer ar Ryddid i Lefaru i gaeldiffiniad)

3. Ystyried yr Adnoddau a'r Trefniadau Penodol sydd eu Hangen

- Trefnu'r digwyddiad (e.e. Penodi Cadeirydd, Gwahodd siaradwyr ychwanegol (i gyflwyno barn gytbwys), Cyfleoedd ar gyfer cwestiynau / rhaid cyflwyno cwestiynau ymlaen llaw
- Diogelwch (e.e. Cyrraedd a gadael y lleoliad, trefniadau cyfarfod a chyfarch, staffio mynedfeydd, tocynnau, ardaloedd gwrthdystio dynodedig, presenoldeb yr heddlu, chwilio bagiau (wrth y fynedfa), cysylltu ag awdurdodau lleol, trefniadau diogelwch personol sy'n ofynnol gan y siaradwyr eu hunain)
- Lle (e.e. y lleoliadau sydd ar gael, gofynion mynediad y siaradwyr a'r mynychwyr)
- Lluniaeth

Atodiad 2: Crynodeb o'r deddfwriaeth berthnasol (rhoddir y rhestr hon fel canllaw yn unig ac ni chafodd ei bwriadu i fod yn rhestr hollgynhwysfawr gan y gall deddfwriaeth berthnasol arall fod yn gymwys)

Adran A – Deddfwriaeth sy'n rhoi rhwymedigaethau ar brifysgolion i hyrwyddo, diogelu a pharchu rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant a rhyddid academaidd

Adran B – Deddfwriaeth a allai gyfyngu ar yr hawl i arfer rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant

Adran A: Rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd

Deddf Addysg (Rhif 2) 1986

Mae adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 yn sefydlu'r ddyletswydd gyfreithiol ganlynol: 'Fod pobl sy'n ymwneud â rheoli unrhyw sefydliad... yn cymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau bod rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn cael ei sicrhau i'w aelodau, ei fyfyrwyr a gweithwyr y sefydliad, ac i siaradwyr sy'n ymweld.

Mae adran 43 yn gosod dyletswydd gyfreithiol gadarnhaol a rhagweithiol. Nid ymatal rhag cyfyngu ar y rhyddid i lefaru neu ei dorri'n unig yw'r rhwymedigaeth, ond yn hytrach gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau rhyddid i lefaru. Mae'r ddyletswydd wedi'i hanelu at ryddid i lefaru i bawb sy'n cymryd rhan ym mywyd prifysgol – yn aelodau, myfyrwyr, staff a siaradwyr sy'n ymweld.

Heb amharu ar y ddyletswydd eang honno, neu gyfyngu arni mewn unrhyw ffordd, mae adran 43 hefyd yn gosod nifer o rwymedigaethau pellach penodol:

- Dyletswydd ar gyrff llywodraethu i gyhoeddi, a diweddarau, côd ymarferol o ran trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ar y safle'r brifysgol;
- Dyletswydd ar bob unigolyn a chorff o unigolion sy'n ymwneud â llywodraethu sefydliad i gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol (gan gynnwys, lle bo'n briodol, cychwyn mesurau disgyblu) i sicrhau y cydymffurfir â gofynion y côd ymarferol;

- Dyletswydd i sicrhau na wrthodir defnydd o unrhyw un o safleoedd y Brifysgol i unrhyw unigolyn neu gorff o unigolion ar sail eu credoau, eu barn, eu polisiau neu eu hamcanion yn unig.

Anelir y ddyletswydd yn adran 43 at y corff llywodraethu ac at uwch reolwyr. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i staff neu fyfyrwyr neu undebau myfyrwyr, mae'r ddyletswydd yn anuniongyrchol berthnasol iddynt drwy'r côd ymarfer sy'n ofynnol a'r rheolau a'r arferion sy'n cael eu mabwysiadu i gefnogi a gweithredu dyletswyddau adran 43.

Deddf Diwygio Addysg 1988 – rhyddid academiaidd

Mae 'rhyddid academiaidd' yn derm a ddefnyddir mewn perthynas ag adran 202 Deddf Diwygio Addysg 1988, a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gomisiynwyr prifysgolion yn achos prifysgolion cyn 1992 i ystyried, ymhlith pethau eraill, yr angen am: 'Sicrhau bod gan staff academiaidd ryddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb safonol, ac i gyflwyno syniadau newydd a barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu'r breintiau a all fod ganddynt yn eu sefydliadau.'

Mae'n atal staff academiaidd rhag cael eu disgyblu, eu diswyddo neu ddioddef anfantais arall ar y sail eu bod wedi arfer rhyddid academiaidd.

Mae'r diogelwch y mae adran 202 Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei roi wedi'i gyfyngu i academiaidd staff yn unig, yn hytrach na staff yn gyffredinol. Nid yw myfyrwyr a siaradwyr gwadd yn dod o dan yr adran ac ni allant apelio at yr hawl i 'ryddid academiaidd'. Mae'r hawl i ryddid academiaidd wedi'i gymhwyso gan yr ymadrodd 'o fewn y gyfraith'; fel gyda'r dyletswyddau i sicrhau rhyddid i lefaru o dan adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, mae'r ffiniau ar ryddid academiaidd wedi'u pennu gan y gyfraith droseddol a sifil, fel na ddiogelir gweithredoedd sy'n anghyfreithlon.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU.

Mae nifer o hawliau'r Confensiwn yn berthnasol i ryddid i lefaru a rhyddid mynegiant:

- Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9) – gan gynnwys rhyddid, naill ai'n unigol neu mewn cymuned gydag eraill, ac yn gyhoeddus neu'n breifat, i amlygu eich crefydd neu gred, drwy addoli, addysgu, arferion a defodau
- Rhyddid mynegiant (Erthygl 10) – gan gynnwys y rhyddid i arddel barn ac i gael a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus
- Rhyddid ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11)

Nid yw'r hawliau Confensiwn hyn o dan Erthyglau 9 i 11 yn absoliwt, ond yn gymwysedig. Dywed y Confensiwn, 'efallai y bydd arfer y rhyddid hwn, gan fod dyletswyddau a chyfrifoldebau ynghlwm wrthynt, yn amodol ar y cyfryw ddefodau, amodau, cyfyngiadau neu gosbau fel y'u rhagnodir gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd' at y dibenion canlynol:

- Er budd diogelwch cenedlaethol, cyfanwydd tiriogaethol neu ddiogelwch y cyhoedd
- Er mwyn atal anhrefn neu droseddu
- Er mwyn diogelu iechyd neu foesau
- Er mwyn amddiffyn enw da neu hawliau pobl eraill
- Er mwyn rhwystro datgelu gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol

Mae deddfwriaeth Hawliau Dynol yn amddiffyn rhyddid mynegiant, ac yn amddiffyn rhag gwahaniaethu fel a ganlyn:

- Mae rhyddid mynegiant yn hawl sylfaenol wedi'i diogelu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 gan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd yn hawl sylfaenol o dan y gyfraith gyffredin
- Mae diogelwch o dan Erthygl 10 yn cwmpasu mynegi barn a all achosi sioc, amharu ar gredoau dwfn pobl eraill neu sarhau'r credoau hynny
- Rhaid i unrhyw gyfyngiadau ar ryddid mynegiant gael eu gosod yn eglur yn y gyfraith bob amser, rhaid iddynt fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd ar gyfer nod dilys, ac yn gymesur
- Gellir cyfyngu ar ryddid mynegiant mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys er mwyn amddiffyn eraill rhag trais, casineb a gwahaniaethu
- Hefyd gellir cyfyngu ar ryddid mynegiant hefyd er mwyn amddiffyn hawliau pobl eraill (e.e. o dan y Ddeddf Cydraddoldeb)

Wrth edrych ar beth yw cyfyngiad cyfreithlon ar ryddid mynegiant, gall fod yn anodd cydbwysu'r hawliau cyfreithiol a roddir o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth cydraddoldeb ac felly mae'n bwysig edrych ar y cyd-destun ac ar ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol arall.

Adran B: Cyfyngiadau cyfreithiol

Deddf Cydraddoldeb 2010:

Mae Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig canlynol: oed, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddo, a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd i sicrhau bod ei staff a'i myfyrwyr yn gallu gweithio, astudio a byw mewn amgylchedd heb ofn, aflonyddu neu gam-drin anghyfreithlon, troseddu casineb ac anogaeth i gyflawni gweithredoedd anghyfreithlon.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen am:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn eirhannu;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Bydd prifysgolion yn atebol dros aflonyddu a wnaed gan eu cyflogeion neu eu hasiantau – gan gynnwys aflonyddu ar staff a myfyrwyr.

Mae aflonyddu anghyfreithlon yn digwydd pan fo ymddygiad digroeso (geiriau llafar neu weithred) sy'n ymwneud â nodwedd warchodedig, a hynny er mwyn tarfu ar urddas unigolyn arall, neu er mwyn creu amgylchedd gelyniaethus, bygythiol, sarhaus neu fychanol, neu sy'n achosi i hynny ddigwydd.

Cyfyngiadau cyfraith trosedd

Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 – ymddygiad a geiriau treisgar, bygythiol neu sarhaus

Mae Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn cynnwys amrywiaeth o droseddau y gall geiriau ac ymddygiad eu cyflawni ac felly mae'n cyfyngu ar arfer yr hawliau i ryddid i lefaru a rhyddid mynegiant a rhyddid academaidd. Nodweddir y troseddau hyn gan ymddygiad treisgar neu eiriau llafar neu weithredoedd sy'n bygwth trais neu sy'n achosi ofn, braw neu drallod.

Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn creu troseddau ac yn arwain at hawliau sifil a rhwymedïau. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn diogelu yn erbyn ymddygiad sy'n cyfateb i aflonyddu ac y gŵyr y troseddwr ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu, neu y byddai unigolyn rhesymol sydd â'r un wybodaeth yn meddwl ei fod yn cyfateb i aflonyddu ar y person arall. Rhaid i ymddygiad gynnwys o leiaf ddwy ddeddf ar wahân, nid oes unrhyw ddiffiniad o aflonyddu. Fodd bynnag, mae cyfraith achos yn dangos bod rhaid i'r ymddygiad o dan sylw fod 'yn ormesol ac yn annerbyniol' ac yng nghyd-destun hawliadau sifil, yn ddigon difrifol i fod ar lefel a fyddai'n cynnal atebolrwydd troseddol. Hefyd mae'r ddarpariaeth sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr yn creu trosedd ar wahân, sef 'gwneud i bobl ofni trais'.

Casineb hiliol a chrefyddol

Hefyd, mae Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn cynnwys troseddau penodol sy'n ymwneud ag ysgogi casineb hiliol a chrefyddol. Mae'r troseddau casineb crefyddol yn gwahaniaethu'n llawer mwy arwyddocaol na'r rhai sy'n ymwneud â chasineb hiliol, ac maent yn llawer mwy cul.

Casineb hiliol

Mae'r deddfau canlynol yn droseddau os cânt eu cyflawni er mwyn ysgogi casineb hiliol neu os, yn yr holl amgylchiadau, ydynt yn debygol o ysgogi casineb hiliol:

- Defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus
- Arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, difrïol neu sarhaus
- Cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, difrïol neu sarhaus
- Perfformio drama'n gyhoeddus lle defnyddir geiriau neu ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus
- Dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad o ddelweddau gweledol neu synau sy'n bygwth, yn difrïo neu'n sarhaus

- Bod yn berchen ar ddeunydd ysgrifenedig neu recordiad o ddelweddau gweledol neu synau sy'n fygythiol, yn ddifriol neu'n sarhaus, a hynny er mwyn eu harddangos, eu dosbarthu, eu cyhoeddi neu'u chwarae

Casineb crefyddol

Mae troseddau casineb crefyddol (a gyflwynwyd i Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 gan Ddeddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006) yn digwydd pan gyflawnir y gweithredoedd canlynol gyda'r bwriad o ysgogi casineb crefyddol:

- Defnyddio geiriau bygythiol
- Arddangos deunydd ysgrifenedig bygythiol
- Cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol
- Perfformio drama'n gyhoeddus sy'n cynnwys geiriau neu ymddygiad bygythiol
- Dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad o ddelweddau gweledol neu synau sy'n fygythiol
- Darlledu rhaglen sy'n cynnwys delweddau gweledol neu synau bygythiol
- Bod yn berchen ar ddeunydd ysgrifenedig neu recordio delweddau gweledol neu synau sy'n fygythiol, a hynny er mwyn eu harddangos, eu dosbarthu, eu cyhoeddi, eu chwarae neu eu darlledu

Troseddau terfysgaeth

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae'r prif droseddau o dan Ddeddfau Terfysgaeth 2000 a 2006 fel a ganlyn:

Yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol-

- Ysgogi neu annog eraill i gyflawni gweithredoedd terfysgol, gan gynnwys drwy fawrygu terfysgaeth
- Bod yn aelod neu honni bod yn aelod o fudiad gwaharddedig neu gefnogi mudiad gwaharddedig
- Dosbarthu cyhoeddiadau terfysgol, gan gynnwys y cyhoeddiadau hynny sy'n annog terfysgaeth, a'r rheini sy'n rhoi cymorth i derfysgwyr
- Bod yn berchen ar ddogfen neu gofnod sy'n cynnwys gwybodaeth o fath sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i unigolyn sy'n cyflawni gweithred o derfysgaeth neu sy'n paratoi i wneud hynny
- Troseddau sy'n gysylltiedig ag eiddo terfysgwyr (gan gynnwys arian, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny)

- Rhoi neu dderbyn hyfforddiant mewn technegau terfysgol a mynychu man hyfforddi terfysgwyr

Mae nifer o'r troseddau hyn yn cyfyngu'n uniongyrchol ar ryddid i lefaru a rhyddid mynegiant a rhyddid academaidd, drwy wneud i'r llefaru neu'r ymddygiad perthnasol fod yn anghyfreithlon.

Dylid cyfeirio at Bolisi *Prevent* y Brifysgol am wybodaeth bellach am droseddau terfysgaeth a chyfrifoldebau'r Brifysgol.

Cyfyngiadau'r gyfraith sifil

Mae'r hawliau rhyddid i lefaru a rhyddid mynegiant a rhyddid academaidd o fewn y gyfraith hefyd yn amodol ar nifer o gyfyngiadau'r gyfraith sifil (e.e. difenwi) yn ogystal.

Atodiad 3: Ffurflen Trefnu Digwyddiad a Siaradwr

Diben y ffurflen yw gwneud yn siŵr bod pob digwyddiad yn cael ei drefnu mewn modd sy'n bodloni'r safonau a nodir yng Nghôd Ymarfer y Brifysgol ar gyfer y Rhyddid i Lefaru. Mae hefyd wedi'i ddylunio i dynnu sylw at sut gall y Brifysgol helpu gyda threfniadau diogelwch/eraill os oes perygl y gallai rhai pobl aflonyddu ar siaradwyr/pynciau neu brotestio yn eu herbyn.

Os ydych yn aelod o **Staff y Brifysgol**, rhaid i chi lenwi Rhan A y ffurflen hon. Os ydych yn teimlo bod unrhyw **risg posibl neu ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r Côd Ymarfer ar gyfer y Rhyddid i Lefaru** yn y digwyddiad arfaethedig, **rhaid i chi hefyd lenwi Rhan B**. Os na fyddwch yn llenwi Rhan B a chaiff y digwyddiad ei ystyried maes o law fel un a allai beri cryn dipyn o risg, gallai'r digwyddiad gael ei wrthod.

Mae'n orfodol i **bawb arall sy'n trefnu** digwyddiad arfaethedig (h.y. unrhyw un nad yw'n aelod o staff y Brifysgol, gan gynnwys myfyrwyr a chymdeithasau) **lenwi Rhannau A a B y ffurflen hon ym mhob achos**.

Argymhellir yn gryf na ddylai gwahoddiadau neu drefniadau eraill ar gyfer y digwyddiad arfaethedig gael eu hanfon cyn i'r cais i drefnu'r digwyddiad gael ei gymeradwyo.

RHAN A

1. Manylion y Digwyddiad Arfaethedig

Enw'r gymdeithas myfyrwyr / adran / ysgol / grŵp sydd am drefnu digwyddiad:

Trefnydd y digwyddiad a manylion cyswllt (*Y sawl sy'n gyfrifol am gyflwyno cais i drefnu digwyddiad*):

Teitl a phwnc y digwyddiad arfaethedig:

Enw'r Siaradwr Gwadd:

Dyddiad arfaethedig y digwyddiad: Amser dechrau / Amser gorffen:

Dyddiad: (dd/mm/yyyy)	Amser dechrau:	Amser gorffen:
-----------------------	----------------	----------------

Y lleoliad a fyddai orau gennych:

Nifer y bobl a ddisgwylir i gyd:

A oes unrhyw beryglon neu ystyriaethau diogelwch a nodwyd mewn cysylltiad â'r digwyddiad hwn (gan gynnwys y canlynol, ymhlith eraill):

- Cynnwys neu bwnc trafod a allai ddenu protestiadau/aflonyddwch/tor-heddwch
- Presenoldeb siaradwr/siaradwyr neu bwnc y drafodaeth yn achosi anhawster mewn cysylltiad â pholisïau cydraddoldeb y Brifysgol (gan gynnwys cymell casineb)
- Cynnwys neu siaradwr/siaradwyr yn achosi anhawster mewn cysylltiad â pholisi *Prevent* y Brifysgol (hyrwyddo eithafiaeth neu radicaleiddio)
- Cynnwys neu siaradwr/siaradwyr sy'n denu sylw yn y cyfryngau a allai effeithio ar enw da a/neu orfod cael ei reoli gan Adran Gyfathrebu'r Brifysgol

Nac oes* – llenwch y datganiad yn [Adran 5](#) a'i ddychwelyd at y corff llogi ystafell priodol (*rhaid i gymdeithasau myfyrwyr/cyrff allanol lenwi Rhan B o hyd p'un a ydynt wedi amlygu risg ai peidio)

Oes - llenwch Ran B.

RHAN B:

I'w llenwi gan **BOB** myfyriwr a chorff allanol sy'n trefnu ac os oes aelod o **Staff y Brifysgol sy'n trefnu** digwyddiad wedi **nodi risg posibl** (gweler Rhan A).

Os oes rhaid **llenwi Rhan B** i drefnu'r digwyddiad, bydd angen **llenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd 21 diwrnod cyn unrhyw ddiwyddiad**.

Os na roddir digon o wybodaeth, ni chaiff y digwyddiad ei drefnu.

1. Sefydliad

Gofynion mynediad ar gyfer y digwyddiad:

Cofrestru ymlaen llaw

Tocynnau

Cyrraedd ar y diwrnod

Arall (rhowch fanylion)

Oes unrhyw sefydliad arall y tu allan i Brifysgol Caerdydd yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r digwyddiad hwn?

Oes

Nac oes

Os oes, rhowch fanylion gan gynnwys unrhyw arian a dderbyniwyd ar gyfer y digwyddiad:

2. Manylion am Siaradwyr Arfaethedig(gan gynnwys pob siaradwr gwadd ac academyddion gwadd, ond nid academyddion gwadd sy'n cyflwyno darlithoedd/seminarau yn rhan o fodiwl a gynlluniwyd)

(Dylai'r wybodaeth sy'n ofynnol yn yr adran hon ei llenwi gan y trefnydd gan ymgynghori ag unrhyw siaradwr posibl)

Enw(au)'r siaradwr/siaradwyr arfaethedig. Rhowch *bob enw* a ddefnyddir gan y siaradwr/siaradwyr:

Ydy'r siaradwr/siaradwyr yn cynrychioli sefydliad / sefydliadau?

Os ydy, rhowch fanylion:

Ydy'r siaradwr/siaradwyr yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliadau eraill?

Os ydy, rhowch fanylion:

Manylion y pwnc y bydd(ant) yn siarad amdano ac unrhyw wybodaeth arall y credwch y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohoni:

(Dylid llenwi'r rhan hon yn llawn a chytuno arni â chadeirydd y cyfarfod os yw'n briodol)

Manylion bywgraffyddol y siaradwr/siaradwyr (rhowch *fanylion llawn*):

3. Asesiad Risg o'r Siaradwr

A ydych yn disgwyl yn rhesymol i'r siaradwr/siaradwyr neu'r pwnc trafod ddenu unrhyw brotestiadau (e.e. ydych chi'n ymwybodol o aflonyddwch mewn digwyddiadau oedd yn ymwneud â'r un siaradwr neu bwnc yn y gorffennol)?

Ydw

Nac ydw

Os ydw, rhowch fanylion:

A oes unrhyw wybodaeth ar ffynonellau ymchwil agored (e.e. chwilio google) sy'n rhoi argraff wael o'r siaradwr/siaradwyr?

Oes

Nac oes

Os oes, rhowch fanylion:

Oes unrhyw leoliad arall wedi gwrthod rhoi caniatâd i siaradwr/siaradwyr gymryd rhan yno?

Oes

Nac oes

Os oes, rhowch fanylion:

A oes unrhyw fygythiadau diogelwch wedi'u nodi mewn perthynas â'r siaradwr/siaradwyr?

Oes

Nac oes

Os oes, rhowch fanylion:

Oes gan y siaradwr/siaradwyr eu trefniadau diogelwch ac amddiffyn eu hunain?

Oes Nac oes

Os oes, rhowch fanylion:

4. Aseiad Risg Digwyddiad

A oes unrhyw ystyriaethau/bygythiadau diogelwch a nodwyd mewn cysylltiad â'r digwyddiad hwn e.e. a oes disgwyl yn rhesymol i gynnwys neu bwnc y drafodaeth ddenu unrhyw brotestiadau/aflonyddwch? (Cewch ragor o wybodaeth yng Nghôd Ymarfer y Brifysgol ar gyfer y Rhyddid i Lefaru)

 Oes Nac oes

Os oes, rhowch fanylion gan gynnwys y trefniadau a wneir i fynd i'r afael â'r risg:

A oes risg y bydd presenoldeb siaradwr/siaradwyr neu bwnc y drafodaeth yn achosi anhawster mewn cysylltiad â pholisïau cydraddoldeb y Brifysgol?

 Oes Nac oes

- Bydd angen i chi ystyried a allai'r pwnc neu'r siaradwr achosi sarhad. Gall hyn gynnwys sarhad o ganlyniad i'r pwnc neu'r iaith a ddefnyddir, gan gynnwys 'jôcs' / 'tynnu coes'. Meddyliwch hefyd a allai hyd yn oed presenoldeb y siaradwr a dim arall achosi sarhad (gan eu bod yn adnabyddus am siarad yn gyhoeddus am bynciau a allai achosi sarhad i rai). Gweler y Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio am arweiniad pellach: https://www.caerdydd.ac.uk/data/assets/pdf_file/0011/966611/2011-Equality-and-Diversity-Policy-FINAL-update-2016.pdf.
- Bydd angen i chi feddwl hefyd am y posibilrwydd y gallai'r siaradwr/pwnc fod yn 'annog casineb' neu risg o achosi ofn neu bryder i'r rhai sydd yno neu gymuned ehangach y Brifysgol

Os yw hyn yn bosibl, nodwch y materion a godir, ac unrhyw drefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

5. Datganiad ar gyfer Ffurflen y Siaradwr Arfaethedig

Ticiwch bob un o'r datganiadau ac wedyn llofnodwch isod i ddangos eich bod yn cytuno:

- Rwyf wedi darllen a deall Côd Ymarfer y Brifysgol ar gyfer y Rhyddid i Lefaru.
- Rwyf wedi rhoi copi o Gôd Ymarfer y Brifysgol ar gyfer y Rhyddid i Lefaru i'r siaradwr allanol.
- Rwyf yn deall mai fi sy'n gyfrifol am ddiogelu a threfnu'r digwyddiad yn briodol (gan gynnwys stiwardio a chadeirio) er mwyn amddiffyn hawliau rhyddid i lefaru.
- Cytunaf i roi gwybod i adran Llogi Ystafelloedd y Brifysgol a/neu'r Adrannau Diogelwch os bydd unrhyw wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn newid

Llofnod:	Dyddiad:
----------	----------

Dychwelwch y ffurflenni wedi'u llenwi fel a ganlyn:

Ar gyfer ystafelloedd cyfarfod y Brifysgol - cysylltwch â: roombooking@caerdydd.ac.uk

Ar gyfer cyfleusterau cynadleddau - cysylltwch â'r Swyddfeydd Cynadleddau: conference@caerdydd.ac.uk

Ar gyfer ystafelloedd a reolir gan Ysgolion, anfonwch y ffurflen at swyddfa berthnasol yr Ysgol o dan sylw

Os hoffech logi ystafell a reolir gan Undeb y Myfyrwyr, **PEIDIWCH** â defnyddio'r ffurflen hon. Dilynwch weithdrefn llogi ystafelloedd Undeb y Myfyrwyr sydd i'w gweld yma: <https://www.cardiffstudents.com/activities/resources/rooms/>

Os ydych yn trefnu'r digwyddiad ar ran eich ysgol/adran, gallwch ofyn am gyngor gan eich rheolwr llinell lle bo angen.

Gallwch gael rhagor o gyngor ac arweiniad gan adrannau canlynol y Brifysgol wrth gwblhau'r asesiad risg hwn: Gwasanaethau Diogelwch Prifysgol Caerdydd, Gwasanaethau Myfyrwyr (Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr i gael cyngor am Prevent), Tîm y Gwasanaeth Sicrwydd yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu, y Tîm Cyfathrebu.

Nodiadau ychwanegol:

Iechyd a Diogelwch: Fel y trefnydd, chi sy'n bersonol gyfrifol am ofalu bod pawb sy'n mynd i ddigwyddiad yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch (fel gweithdrefnau tân a llwybrau dianc mewn argyfwng) a bod pawb sy'n mynd i'r digwyddiad yn ymddwyn yn briodol. Does dim rhaid i chi wneud y cyhoeddiadau a'r trefniadau perthnasol eich hun ond chi'n sy'n bersonol gyfrifol am wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei wneud. Mae gan y Grŵp Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyfres ddefnyddiol o [dudalennau ar y we ac adnoddau](#) i'ch helpu i gynnal digwyddiadau yn ddiogel. I gael cyngor, cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd safety@caerdydd.ac.uk + 44 (0) 292087 4910

Asesiad Risg: Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw cynnal asesiad risg ar gyfer y digwyddiad arfaethedig a chymryd camau priodol i leihau unrhyw risg posibl a nodwyd o ganlyniad i'r asesiad hwnnw. Mae [ffurflen asesiad risg](#) gyffredinol a syml ar gael ar y Fewnrwyd

Cydraddoldeb a Chynhwysiant: Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw nodi a gwneud trefniadau i wneud yn siŵr bod unigolion, gan gynnwys

unigolion anabl, yn gallu cael mynediad i'r digwyddiad a chymryd rhan ynddo. Gall unigolion ofyn i chi roi trefniadau penodol ar waith. I gael cyngor, cysylltwch â thîm Gwasanaeth Sicrwydd y Brifysgol yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

Yr Iaith Gymraeg: Trefnydd y digwyddiad sydd hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau'r Brifysgol yn unol â Safonau'r Gymraeg. I gael cyngor, cysylltwch â thîm Gwasanaeth Sicrwydd y Brifysgol yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

Diogelu Data: Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad yw sicrhau bod unrhyw ddata personol a gasglwyd neu a gyfathrebwyd cyn, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad yn cael ei wneud yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Atodiad 4 – Ceisiadau am Siaradwyr Gwadd – Rhestr o Atgyfeiriadau o dan y Côd Rhyddid i Lefaru /y Polisi *Prevent*

Cyf	Dyddiad y digwyddiad arfaethedig	Enw'r digwyddiad	Enw(au)'r siaradwr(siaradwyr)	Achos sy'n peri pryder: a)	Trefnydd y digwyddiad	Aseiad(au) risg - canlyniad	Canlyniad adolygiad y digwyddiad

Canllawiau

Nodwch **achos pryder** posibl, gan ddefnyddio'r llythrennau cyfeirnod canlynol:

- a) hyrwyddo terfysgaeth, radicaleiddio ac eithafiaeth (Cymorth i fudiad y mae ei nodau a'i amcanion yn anghyfreithlon neu ar restr mudiadau a waharddwyd gan Lywodraeth y DU);
- b) mynegi barn yn anghyfreithlon (aflonyddu/ gwahaniaethu ar sail: hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, oedran, ailbennurhywedd);
- c) ysgogi'r rhai sy'n mynychu i gyflawni gweithred droseddol (ysgogi casineb ar sail lliw, hil, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol);
- d) gorchymyn cyhoeddus cyffredinol (e.e. torri'r heddwch)
- e) cyfyngiad cyfreithiol arall

Gall y **canlyniadau** gynnwysbwrw ati heb fod angen mesurau lliniaru; bwrw ati gyda mesurau lliniaru; neu wedi'i ganslo.